# DYMA GARIAD

Llythyr Bugeiliol oddi wrth Esgob Llanelwy
Dydd Sant Ffolant, 14 Chwefror 2021

Mae'r byd sydd ohoni'n gwneud môr a mynydd o **'gariad'**, sy'n gallu golygu pob math o bethau, o serch hyd at ryw. Bydd y cyfan yn cael ei arddangos y penwythnos hwn. Mae Dydd Sant Ffolant yn gyfle da i ddyblu prisiau rhosynnod, i werthu cardiau a siocled ac i ddathlu rhamant yn gyffredinol,

Eto, yn greiddiol, mae yn natur pobl i groesawu cyfle i ddathlu cariad, oherwydd, a ydyn ni'n ymwybodol ohono ai peidio, mae cariad yn atsain ar lefel y realiti dyfnaf sydd ynom, oherwydd dyma natur waelodol yr un sy'n cadw'r cread i fynd ac sy'n ein cadw ninnau mewn bodolaeth. Duw. Pan gynhaliwyd 'ymarfer' yng nghynhadledd yr esgobaeth rai blynyddoedd yn ôl, roedd pobl eisiau gosod 'Cariad' wrth galon y neges y dylen ni fel Eglwys ei chyfleu, oherwydd fod gennym y syniad greddfol mai dyma yw neges Duw i ni ac mai dyma'r neges y mae'r byd angen ei chlywed. Ond nid ar chwarae bach y mae gweithio allan beth yw ystyr hynny, mae ystyr y gair mor hyblyg. Daeth cariad yr hyn a elwir yn enw 'portmanteau' heddiw, mae'n gallu golygu pob math o bethau ac fe allwn ni, yn rhy hawdd o'r hanner, ei deneuo i feddwl teimladau neu sentiment.

Pan fydd Cristnogion yn dweud 'Duw Cariad Yw' rydyn ni mewn gwirionedd yn arddel y realiti sy'n gyrru grymoedd y creu ac yn rhwymo ei glwyfau. Rydyn ni'n siarad am rym sy'n ddigon cryf i wynebu popeth sy'n anharddu'r cread yn ogystal â phopeth rydyn ni, bobl, i'w weld yn gallu ei wneud i beri dioddefaint i'n gilydd. Mae cariad Duw yn gryf, yn ddeinamig ac yn wydn. Mae'r Iesu sy'n dioddef yn enbyd ar y groes yn cau clwyfau pechod a drygioni. Mae'r Crist croeshoeliedig yn dadorchuddio gwirionedd dyfnaf y bydysawd, yr hyn a alwodd C S Lewis yn 'yr hud a'r lledrith dwfn o ddechrau amser'. Dyma'r rheswm pam fod Llyfr y Datguddiad (ym mhennod 5.6 a thrwy'r penodau olaf) yn dewis rhoi symbol yr 'oen a gafodd ei ladd' ar yr orseddfainc nefol yng nghanol eithaf y bydysawd. Dyna pam fod yr Apostol Paul yn cychwyn cymaint o'i lythyrau i'r Eglwysi gyda'r cyfarchiad 'Gras a Heddwch i chi oddi wrth Dduw ein tad a'r Arglwydd Iesu Grist' neu rywbeth tebyg.

Mae gras yn un o eiriau mwyaf yr Ysgrythur, gair i gael blas arno ac i ddal gafael ynddo. Flynyddoedd yn ôl, fe gefais i fy nysgu i'w weld, yn Saesneg, fel *__G__od's __R__iches __A__t __C__hrist's __E__xpense*, acronym i'm hatgoffa fod Duw, yn yr Iesu croeshoeliedig, yn cymryd arno ei hun bechodau'r byd, yn agor ffordd i ni gael ein rhyddhau ac i dod i dderbyn y bendithion sydd ganddo ar ein cyfer.

Cariad, gras a thosturi, dyma driawd o eiriau cysylltiedig, pob un yn dyst i'r berthynas rydyn ni'n cael ei galw iddi gan Iesu i'w throi a'i chofleidio. Rwy'n ychwanegu Tosturi at Gariad a Gras oherwydd, pan fyddwn ni'n agor ein calonnau ym mhresenoldeb Duw mewn gweddi neu mewn sacrament, yna ei dosturi atom ni yw'r hyn y mae ein hysbryd yn ei synhwyro ac yn ei brofi. 'Dewch ataf i, bawb sy'n flinedig ac yn drwm lwythog, ac fe roddaf fi orffwystra i chwi,' meddai. 'Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch gennyf, oherwydd addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon, ac fe gewch orffwystra i'ch eneidiau'. *(Mathew 11.28,29).*

Dyma'r tri gair sylfaenol ryw'n ei roi i chi felly wrth i ni ddynesu at y Grawys: Cariad, Gras, Tosturi. Mae nhw'n dangos sut mae Duw'n creu perthynas â ni, ac hefyd maen nhw'n rhoi gwerthoedd i ni eu byw yn ein bywydau ni ac i fyw i fyny iddyn nhw. Mae agwedd drugarog Duw yn cael ei fynegi'n hyfryd yn yr emyn 'Dyma Gariad' gan William Rees, ac rwy'n eu cymeradwyo i chi wrth i ni ddathlu Sant Ffolant a symud at y Grawys. Cofiwch edrych ar eiriau'r emyn, ystyried beth maen nhw'n ei feddwl i chi ac i'ch ffydd. Ac maen nhw'n rhoi sylfaen dda i weddi.

Ar Galfaria yr ymrwygodd
  holl ffynhonnau'r dyfnder mawr
torrodd holl argaeau'r nefoedd
  oedd yn gyfan hyd yn awr:
gras a chariad megis dilyw
  yn ymdywallt yma nghyd
a chyfiawnder pur a heddwch
yn cusanu euog fyd.